# O'r Ffrwyth i'r Pridd



Sut mae hadau'n teithio o'r ffrwyth i'r pridd?



**Y gwynt**
Mae rhai hadau'n teithio yn y gwynt achos maen nhw'n ysgafn. Maen nhw'n glanio ar y pridd. Yna, mae planhigion bach yn tyfu.

**Dŵr**
Mae rhai hadau'n teithio ar y dŵr - maen nhw'n arnofio ar y dŵr. Maen nhw'n glanio ar y pridd. Yna, mae planhigion bach yn tyfu.





**Anifeiliaid**
Mae rhai hadau'n teithio ar ffwr anifeiliaid. Maen nhw'n glanio ar y pridd. Yna, mae planhigion bach yn tyfu.

**Pobl**
Mae pobl yn hau hadau yn yr ardd neu mewn potiau. Yna, mae planhigion bach yn tyfu.





**Ffrwythau'n byrstio**
Mae rhai ffrwythau'n byrstio ac mae'r hadau'n byrstio allan. Maen nhw'n glanio ar y pridd. Yna, mae planhigion bach yn tyfu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ysgafn | light (weight) | arnofio | to float |
| glanio | to land | hau | to sow |
| tyfu | to grow | byrstio | to burst |